# Cyfrinachedd –
# Addewid Proffesiynol Care first

Gall gymryd cryn ddewrder i godi'r ffôn a chysylltu â Care first i ofyn am rywfaint o gefnogaeth gyda materion personol neu faterion yn y gweithle. Yn Care first rydym yn gwybod ac yn trin unrhyw beth sydd gennych i'w ddweud gyda'r parch mwyaf. Weithiau mae pobl yn petruso ac yn meddwl a yw ein trafodaeth yn gyfrinachol?

Mae Care first yn gwarantu cyfrinachedd pan fyddwch yn ffonio **0800 174319**. Yr unig eithriadau i hyn yw meysydd risg uchel pan fyddai'n anghyfrifol yn foesegol i ni beidio â gweithredu ar yr hyn rydym yn ei glywed. Y meysydd hyn yw: Bygythiad i fywyd person arall, pan fod materion diogelu plant neu oedolyn diamddiffyn yn y fantol neu pan fydd gweithredoedd galwr yn bygwth diogelwch eich sefydliad. Ym mhob achos o'r fath, bydd y cwnselydd yn trafod gyda'r galwr sut yw’r ffordd orau iddo/iddi ymddwyn yn gyfrifol. Mae angen i unrhyw sefydliad cwnsela moesegol fod yn effro i'r meysydd risg hyn ac mae Care first yn arwain y ffordd o ran gweithio gyda galwyr i helpu dod o hyd i atebion pan fydd y materion hyn yn cael eu crybwyll.

Nid yw eich sefydliad yn gwybod pwy sy'n defnyddio ein gwasanaeth oni bai bod yr unigolyn yn dewis dweud wrth rywun am ei gyswllt â Care first. Rydym yn darparu ystadegau i'ch sefydliad i ddangos faint o weithwyr sy’n defnyddio'r gwasanaeth a'r mathau eang o faterion y mae gweithwyr yn codi gyda ni, er enghraifft; 'perthynas yn chwalu yn y cartref' neu 'fwlio ac aflonyddu yn y gweithle', felly nid oes unrhyw wybodaeth yn cael ei throsglwyddo o gwbl a allai ddangos pwy ydych chi.

Rydym yn gobeithio y bydd atgyfnerthu arfer proffesiynol Care first yn annog unrhyw un sy’n oedi i ymddiried ynom gyda’r rhan o'ch bywyd lle mae angen rhywfaint o gymorth arnoch.

**Mae atebion yn dechrau gyda’r alwad gyntaf honno... 0800 174319**

Care first

employee assistance solutions